# CYNLLUN MARCIO TAG

**HAF 2016**

**ASTUDIO’R CYFRYNGAU - MS1:**
**CYNRYCHIOLIADAU’R CYFRYNGAU A’R YMATEBION IDDYNT**

**1291/01**

© WJEC CBAC Ltd.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

## ASTUDIO'R CYFRYNGAU UWCH GYFRANNOL/UWCH

## MS1: CYNRYCHIOLIADAU'R CYFRYNGAU A'R YMATEBION IDDYNT

### Canllawiau Marcio: Haf 2016

### Cyffredinol

### Cyfarfod yr Arholwyr

Cynhelir Cyfarfod yr Arholwyr ar **ddydd Mercher, 25 Mai 2016** yn **Novotel, Schooner Way, Atlantic Wharf, Caerdydd CF10 4RT,** yn dechrau am **9.30 am.** Y nod yw gorffen erbyn **4.00 pm** fan bellaf.

*Cyn y cyfarfod, dylech farcio dros dro (mewn pensil)* ***o leiaf 10 sgript*** *i ffurfio syniad o ystod yr atebion. Dewch â'r sgriptiau hyn gyda chi i'r cyfarfod ynghyd â rhestr gryno o unrhyw faterion arholi maen nhw'n eu codi yn eich barn chi.*

### Cofnodi Marciau

Rhaid i'r holl farcio fod mewn coch. Rhaid bod tystiolaeth o farcio ar bob tudalen a ddefnyddiwyd gan ymgeisydd. Rhaid cofnodi'r marc ar gyfer pob cwestiwn ar yr ymyl dde ac yna ei drosglwyddo i'r grid ar glawr blaen y llyfr atebion.

### Anodi

Ar ddiwedd pob ateb dylai fod sylw byr i gefnogi'r marc a roddwyd. Gofynnir nawr yn ffurfiol i arholwyr anodi yn ymylon yr ateb, gan ddefnyddio byrfoddau os dymunir, fel ei bod hi'n glir sut y cyrhaeddwyd y marc terfynol. Dylai ticiau ymwneud â phwyntiau/mewnwelediadau penodol, yn hytrach na dangos bod y deunydd wedi'i ddarllen yn unig. Dylai pob sylw fod yn gysylltiedig â'r meini prawf. Dylid cofio wrth gwrs bod canolfannau yn aml yn gofyn am sgriptiau wedi'u marcio.

### Cyfeirio at yr Uwch Arholwr

Os oes gennych am unrhyw reswm broblemau arbennig wrth farcio sgript, boed hynny oherwydd dull ateb anarferol neu rywbeth mor gyffredin â llawysgrifen, dylech naill ai gysylltu â'r Uwch Arholwr/Arweinydd Tîm ynghylch sut i fynd yn eich blaen, neu ysgrifennu ar y clawr blaen 'Cyfeirio at UA/*Refer to PE*' ac **e-bostio/anfon nodyn eglurhaol ar wahân at y swyddog pwnc ar ddiwedd y cyfnod marcio**. Bydd hyn yn sicrhau yr adolygir y sgript.

### Mewnbynnu Marciau yn Electronig a Dychwelyd Sgriptiau

Dylai'r marciau i gyd gael eu cofnodi ar-lein erbyn **dydd Iau, 16 Mehefin 2016** a dylai sgriptiau wedi'u marcio gael eu **dychwelyd i CBAC (Trefforest) erbyn yr un dyddiad.** Os byddwch am unrhyw reswm yn rhagweld problemau ynghylch cwrdd â'r terfyn amser hwn, cysylltwch â'r Prif Arholwr neu'r Swyddog Pwnc ar unwaith. Dychwelir **sgriptiau** yn eu hamlenni canolfan i **CBAC** yn **Nhrefforest** drwy *Parcelforce*.

© WJEC CBAC Ltd.

## Astudio'r Cyfryngau Uwch Gyfrannol/Uwch
## MS1: Cynrychioliadau ac Ymatebion

### MS1: Cynllun Marcio Generig (Cwestiwn 1)

***Cwestiwn 1***

| **Lefel** | ***AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-15** | Golwg arwynebol ar y testunau ar lefel synnwyr cyffredin. Diffyg canolbwyntio ar y testun. Disgrifiadol yn hytrach na dadansoddol. Rhywfaint o honni heb ei gefnogi neu amherthnasedd. Diffyg rhugldER. Heb fod wedi'i seilio ar wybodaeth neu ddealltwriaeth o'r cyfryngau. |
| **Lefel 2: 16-23**<br><br>**(16-19)**<br><br><br><br>**(20-23)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd teimlad sylfaenol o sut caiff ystyron eu creu er y gall fod rhywfaint o ymgais i ddadansoddi nodweddion allweddol. Rhywfaint o adnabyddiaeth o gynodiadau ond tuedd i orfanylu ar y syml.<br><br>Disgrifiadol.<br><br>Ar ben uchaf y lefel hon, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu i ddadansoddi. Adnabyddiaeth o gynodiadau a chynrychioliadau ond heb ei datblygu. Dealltwriaeth o sut mae testunau'n creu ystyron. Tuedd i ddisgrifio. |
| **Lefel 3: 24-31**<br><br>**(24-27)**<br><br><br>**(28-31)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth gadarn o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu cadarn i ddadansoddi. Amgyffrediad cadarn o gynodiadau. Ar y lefel hon, gwneir pwyntiau, gan ddefnyddio termau priodol y cyfryngau. Safbwynt unigol yn dechrau dod i'r amlwg.<br><br>Ar ben uchaf y lefel, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o destunau a chonfensiynau cyfryngol ynghyd â gallu da i ddadansoddi. Defnydd hyderus o dermau'r cyfryngau a dadl wedi'i strwythuro'n dda, o bosibl yn tynnu ar wahanol ddulliau. Archwilio syniadau i roi dehongliad dilys o'r testun wedi'i gefnogi'n briodol. |
| **Lefel 4: 32-40** | Dadansoddi soffistigedig a chraff, yn dangos dealltwriaeth drylwyr o ddangosyddion a thechnegau allweddol. Mynegir syniadau cymhleth yn gydlynol. Ymwybyddiaeth o natur amlystyr testunau gydag adnabyddiaeth bosibl o'r ideolegol. Tystiolaeth o drosolwg. Defnydd wedi'i ddatblygu'n dda o dermau'r cyfryngau. |

© WJEC CBAC Ltd.

## MS1: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae sawl disgrifydd o fewn band marciau ac nid oes disgwyl i bob un fod yn berthnasol i'r un graddau i ateb penodol. Felly dylai arholwyr ddechrau ar y band marciau isaf a gweithio i fyny i ddewis yr un sy'n disgrifio'n fwyaf cywir yr ateb yn gyffredinol.

I ddewis marc o fewn band, dylai arholwyr benderfynu a yw'r ateb o'r braidd yn cwrdd â'r disgrifwyr (marciau isaf), yn cwrdd â'r disgrifwyr yn ddigonol (marciau canol), neu'n cwrdd â'r disgrifwyr yn argyhoeddiadol (marciau uchaf).

Mae'r cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn yn darparu pwyntiau y gall ymgeiswyr gyfeirio atynt yn eu hatebion. Rhaid ei ***ddefnyddio ar y cyd â'r grid perthnasol.*** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. ***Rhaid*** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â Chwestiynau 2 a 3 ac mae canolfannau yn debygol o fod wedi astudio amrywiaeth o enghreifftiau gwahanol. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

Astudiwch olygfa agoriadol *Panorama (gafodd ei darlledu gyntaf ym mis Rhagfyr 2014)* sy'n ymdrin â'r mater o amodau gwaith yn ffatrïoedd *Apple*.

**C.1.** Dadansoddwch yr olygfa agoriadol gan roi sylwadau am y canlynol:

- codau gweledol
- codau technegol a chlywedol
- naratif **[40]**

**Codau gweledol**

- lliwiau tawel i awgrymu realiti
- graffigwaith a theipograffeg i awgrymu byd cyfrifiaduron a rhaglennu
- eiconograffeg technoleg e.e. cynrychioliad eiconig o gynhyrchion *Apple*
- dillad a golwg gorfforol yn rhoi cliwiau i gymeriad e.e. siwtiau 'arbenigwyr '
- lleoliadau go iawn
- graffigwaith e.e. chwalu logo *Apple*/ teitl y rhaglen
- amrywiaeth o leoliadau

**Codau technegol a chlywedol**

- 'darnau o ffilmiau go iawn ' i sefydlu hygrededd – aneglur i awgrymu 'ffilmio cudd'
- saethiadau sefydlu - e.e. y siop *Apple*
- defnyddio darnau o ffilmiau archif i awgrymu 'tystiolaeth '
- agosluniau mewn cyfweliadau
- defnyddio cerddoriaeth i sefydlu naws – yn cynyddu i gresendo - confensiwn *genre*
- golygu wedi'i ddefnyddio i greu enigmâu naratif
- defnyddio gwahanol fathau o ddeialog e.e. llais gohebydd newyddion
- cerddoriaeth yn newid e.e. dramatig ac yna cerddoriaeth sy'n codi calon i awgrymu delwedd 'cŵl' *Apple*
- gwahanol arddulliau golygu

© WJEC CBAC Ltd.

**Naratif**

- cymeriadau a'u rôl o fewn y naratif
- cyferbyniadau deuaidd ynglŷn â chymeriadau
- lleoliadau e.e. 'arbenigwyr' mewn ystafelloedd â llyfrau
- trin amser a gofod
- gohebydd fel angor yn cyfeirio'r gynulleidfa drwy'r naratif
- codau mynd (*action*) a chodau enigma - codau a chonfensiynau fformat rhaghysbyseb
- defnyddio deialog
- iaith ddramatig i bwysleisio difrifoldeb y mater
- dull cyfarch uniongyrchol
- personoleiddio – gohebydd fel rhan o'r stori
- codau technegol yn adlewyrchu thema cyfrinachedd a chynllwyn
- iaith wedi'i llunio ar gyfer effaith e.e. '*swanky store*'

**C.2** **(a)** Awgrymwch **ddwy** gynulleidfa wahanol ar gyfer yr olygfa agoriadol hon. **[4]**

**Gall awgrymiadau gynnwys:**

- y rheini sy'n cael eu denu gan 'ddetholrwydd' y cynnwys
- gwylwyr teyrngar *Panorama*
- y rheini sy'n cael eu denu gan y syniad o stori 'bywyd go iawn'
- defnyddwyr *Apple* a allai fod â diddordeb
- y rheini sydd â chydwybod gymdeithasol ac sydd â diddordeb yn y materion sy'n cael eu codi

Ar gyfer **pob** cynulleidfa wahanol a nodir:

| | |
|---|---|
| **1 Marc** | Yn nodi cynulleidfa gredadwy. |
| **2 Farc** | Yn disgrifio'r gynulleidfa hon yn fwy manwl. |

**(b)** Archwiliwch sut mae'r olygfa agoriadol hon yn apelio at **un** o'r cynulleidfaoedd hyn **[10]**

**Bydd yr ateb yn gysylltiedig â'r gynulleidfa a ddewisir ond gall gyfeirio at y canlynol:**

- lluniad y naratif
- naratif yn awgrymu y bydd y gynulleidfa yn cael gwybod 'cyfrinachau' – enigmâu'n cael eu creu
- apêl codau generig rhaglen ddogfen
- darnau o ffilmiau go iawn a chymeriadau go iawn yn awgrymu stori bywyd go iawn e.e. adroddiadau newyddion, ymwybyddiaeth o'r stori
- adroddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn apelio at gynulleidfa bryderus
- *repertoire* elfennau rhaglen ddogfen flaengar
- dull cyfarch uniongyrchol y gohebydd, yn cynnwys y gynulleidfa

| | |
|---|---|
| **Lefel 1: 0 – 2** | Bydd y dulliau'n arwynebol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol iawn yn unig o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa ddewisol. |
| **Lefel 2: 3 - 4** | Bydd yr ateb yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol ond perthnasol o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa ddewisol. |
| **Lefel 3: 5 – 7** | Dealltwriaeth gydlynol, gadarn o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa ddewisol. (5).<br>……………………………………………………………………………<br>Bydd dealltwriaeth dda o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa ddewisol yn cael ei dangos ar gyfer rhan uchaf y lefel hon (6-7). |
| **Level 4: 8 - 10** | Dealltwriaeth soffistigedig o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa ddewisol. |

© WJEC CBAC Ltd.

**(c)** Archwiliwch y ffyrdd gwahanol mae cynulleidfaoedd yn ymateb i destunau cyfryngol. Cyfeiriwch yn fanwl at **ddwy** enghraifft rydych chi wedi'u hastudio.

**Efallai bydd atebion yn ymdrin â'r canlynol:** **[16]**

- oed
- rhywedd
- ethnigrwydd
- diwylliant
- lleoli gan y testun
- lluniad y testun
- sefyllfa
- profiad

Rhaid i'r pwyntiau hyn gael eu trafod gan gyfeirio at 2 enghraifft fanwl.

| **Lefel** | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-5** | Fawr ddim neu ddim teimlad o gysyniad cynulleidfa. |
| **Lefel 2: 6-8**<br>**(6)**<br><br><br>**(7-8)** | Dealltwriaeth sylfaenol o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Disgrifiadol ac wedi'i symleiddio'n ormodol. Tuedd i orfanylu'r syml.<br>…………………………………………………………………………………….<br>Dealltwriaeth o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr yn dod i'r golwg ond heb ei datblygu. Gall fod cyfeiriadau ymhlyg at ddadleuon beirniadol ynghylch cynulleidfa/defnyddwyr. Efallai na fydd dim cyfeirio at enghreifftiau; efallai bydd yr enghreifftiau'n gyffredinol iawn neu heb eu harchwilio'n fanwl o gwbl. |
| **Lefel 3: 9-11**<br>**(9)**<br><br><br>**(10-11)** | Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Efallai bydd yn dechrau dyfynnu materion, damcaniaethau neu ddadleuon perthnasol ynghylch ymateb cynulleidfa/defnyddwyr.<br>…………………………………………………………………………………….<br>Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Cyfeirio perthnasol at faterion sy'n ymwneud ag ymateb cynulleidfa/defnyddwyr a chysylltu hyn ag amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau perthnasol, dadleuon newidiol, safbwyntiau a dulliau gwahanol. |
| **Lefel 4: 12-16** | Dealltwriaeth soffistigedig o gynulleidfa/ddefnyddwyr. Mae'n tynnu ar faterion a dadleuon ynghylch ymateb cynulleidfa/defnyddwyr ac mae'n mynd i'r afael â materion damcaniaethol perthnasol. |

© WJEC CBAC Ltd.

**C.3** Gan ddefnyddio **eich enghreifftiau manwl eich hun**, trafodwch gynrychioliad materion cyfoes yn y cyfryngau heddiw. **[30]**

- Rhaid i ymgeiswyr ganolbwyntio ar gysyniad cynrychioliad, archwilio mwy nag un mater a chyfeirio at **2/3 enghraifft ar draws y materion dewisol.**
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn glir ynglŷn â beth yw mater a gallu archwilio hyn yn eu hateb.
- Mae disgwyl y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y lefelau uchaf yn dangos dealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad ac yn gallu angori eu henghreifftiau dewisol o ran cyd-destun a phwrpas.
- Dylai'r enghreifftiau dewisol gael eu dadansoddi â thipyn o fanylder a rhaid i'r ymgeiswyr mwy galluog fynd i'r afael â nhw ar lefel fwy soffistigedig sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifiadau neu honiadau syml o gadarnhaol a negyddol.
- Rhaid i'r enghreifftiau a ddefnyddir fod yn gyfoes er mwyn adlewyrchu cynrychioliad materion 'yn y cyfryngau heddiw'.

| Lefel | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-11** | Dadl arwynebol. Yn dibynnu'n drwm ar ddisgrifio. Diffyg enghreifftiau priodol. Fawr ddim tystiolaeth o ddealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad. |
| **Lefel 2: 12-17**<br>**(12-14)**<br><br>**(15-17)** | Ymgais sylfaenol i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Golwg syml ar destunau. Diffyg dyfnder a datblygiad. Tuedd i orfanylu'r syml.<br>……………………………………………………………………………………….<br>Teimlad o gysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Efallai bydd y dulliau'n rhy ddisgrifiadol. Gall yr ateb fod wedi'i gyfyngu i'r deunydd ysgogi heb ddim enghreifftiau eraill. Lle defnyddir enghreifftiau efallai byddan nhw'n gyffredinol neu heb eu datblygu'n llawn. |
| **Lefel 3: 18-23**<br>**(18-20)**<br><br>**(21-23)** | Dealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Ymgais cadarn i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau gan ddefnyddio enghreifftiau priodol. Bydd syniadau gweddol gymhleth yn cael eu mynegi'n glir gyda rhywfaint o dystiolaeth o ddehongliad personol.<br>………………………………………………………………………………………..<br>Dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Archwiliad da o gysyniadau a dadleuon perthnasol y cyfryngau gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Yn debygol o dynnu ar wahanol ddulliau. |
| **Lefel 4: 24-30** | Dealltwriaeth soffistigedig o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad a chysylltu hyn â meddwl a damcaniaethau cyfredol. Archwiliad hyderus o gysyniadau'r cyfryngau. Teimlad da o faterion a dadleuon ynghylch amrywiaeth eang o destunau cyfryngol. |



© WJEC CBAC Ltd.